# Cenn@d

EBRILL 3 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 162

## Cyfarch John Hughes, Llangernyw ar drothwy ei ben-blwydd yn 100 oed

Rai wythnosau yn ôl roeddem yn cyfarch y Parch. Denis Young ar ei ben-blwydd yn 100 oed – y gweinidog cyntaf o blith y Bedyddwyr i gyrraedd y garreg filltir nodedig hon.

Y tro hwn, un o gyn-lywyddion Undeb Bedyddwyr Cymru sy'n cyrraedd y cant, sef ein brawd annwyl John Hughes, y Graig, a fu'n aelod gydol ei oes o gapel bach Bethabara, Llangernyw.

Ganed John yn y Cwm, Llangernyw, sef y cartref y maged Syr Henry Jones ynddo. Gwasanaethodd ei enwad ar amryw bwyllgorau, gan gynnwys Coleg y Bedyddwyr ym Mangor. Anrhydeddwyd ef trwy ei benodi yn Llywydd yr Undeb fel arwydd o barch a diolchgarwch am ei waith. Mae'n genedlaetholwr mawr ac ymdrechodd yn angerddol dros yr iaith a'n diwylliant gydol ei oes; mae'n parhau



i gymryd diddordeb yn 'pethe'. Bu'n Gadeirydd Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1995 ym Mro Colwyn, yn Gadeirydd Ymddiriedolaeth Henry Jones, yn aelod o Lys y Brifysgol ym Mangor ac yn Faer Bwrdeistref Colwyn.

Estynnwn ein llongyfarchiadau gwresog iddo, gan ddymuno pob bendith iddo. Pen-blwydd hapus, John.

### John Hughes, Y Graig

Rhoi ei oes i frwydrau'r iaith
a hynny'n unig ganwaith.

Y Graig oedd angor ei gred
a mynwes ei gymuned.

Gŵr o ddyfnder cymeriad — ni ildiai
o weld gwrthwynebiad,
na gwyro yn ei gariad
drwy gur na bwledi'r gad.

Egwyddor ac argyhoeddiad – a'i nod
yn un penderfyniad
i achub cam ei famwlad
a rhoi oes hir i'w grwsâd.

Fy mro, fy mro, rhowch eich mawrhad
– a rhowch
eich rhwydd werthfawrogiad
i'r un dewraf ei safiad
a'i waith glew dros iaith a gwlad.

*Dewi Wyn*

## Lansio cyfrol Gristnogol gan Glyn Wise


Nos Fercher, 27 Mawrth, ar raglen *Heno* (S4C) lansiwyd cyfrol newydd gan Glyn Wise, sy'n hyfforddi i fod yn ficer gyda'r Eglwys yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'r gyfrol *Llythyr Cariad*, *Llythyr Gobaith* yn edrych ar hunan-les a gofal dros yr unigolyn. Ynddi ceir portreadau o ddwsin o gymeriadau Beiblaidd, a'r modd y gwnaethon nhw ddelio ag argyfyngau a gofidiau.

Meddai'r awdur, Glyn Wise, 'Mae llyfrau hunangymorth yn hynod boblogaidd y dyddiau hyn. Ac wrth ddarllen drwyddyn nhw gyda chrib mân gwelwn fod llawer o'u prif negeseuon yn deillio o'r Beibl. Llythyr cariad gan Dduw i ni yw'r Beibl, ac os nad ydych yn credu yn Nuw, wel, mae'n parhau i fod yn llyfr llawn gwybodaeth ar sut i fyw'r bywyd gorau posibl.

'Mae'r Beibl yr un mor berthnasol yn ein dyddiau ni ag yr oedd ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. Bydd llawer yn cymryd y cyfle i ddarllen y llyfr hynafol hwn am y tro cyntaf, a dysgu o brofiadau rhai o'r cymeriadau.'

Mewn cyfnod lle mae hunan-les yn un o'r ffactorau pwysicaf mewn cymdeithas, mae awdur y llyfr hwn am i'r darllenydd edrych sut mae storïau a chymeriadau'r Beibl yn berthnasol i'n bywydau ni heddiw.

Cyhoeddwyd y gyfrol gan Gyhoeddiadau'r Gair ac mae ar gael o'ch siop leol, pris £5.99.




O'r galon
Tudalen 3

Deunyddiau newydd gan Gyhoeddiadau'r Gair
Tudalen 4

Shevet Achim – Brodyr Ynghyd (Salm 133:1)
Tudalen 7

# O'r byd a'r betws

Dyma'r adeg o'r flwyddyn pan fydd y mwyafrif o eglwysi yn cyhoeddi eu hadroddiadau blynyddol. Deallwn fod canran gynyddol o eglwysi yn hepgor nodi cyfraniadau unigol yr aelodau, ond mae'n bwysig o ran tryloywder y cyfrifon bod yr adroddiadau blynyddol yn agored i'w gwirio yn ôl y gofyn. Bydd mwyafrif yr adroddiadau hyn yn nodi enwau swyddogion yr eglwys, ond ar y cyfan yn hepgor nodi cyfeiriadau a rhifau ffôn yr aelodau. Mwy na thebyg fod cyfarchion oddi wrth y gweinidog, neu un o'r swyddogion, ac mae'n siŵr fod yna wybodaeth am enedigaethau, priodasau a marwolaethau lle bo hynny'n briodol. Onid yw'r arferion yn newid?

Faint o eglwysi sy'n cyfleu digwyddiadau yn yr eglwys, a dwyn sylw at waith yr Ysgol Sul, y Chwiorydd, y Cwrdd Gweddi, Dosbarthiadau Beiblaidd ac yn y blaen? Cawn yr argraff nad yw pob aelod o'r eglwysi yn ymwybodol o'r hyn mae'r eglwysi yn ei gyflawni. Ceir sylw gan Iesu na ddylai'r llaw dde wybod beth mae'r llaw chwith yn ei wneud, ac na ddylid arfer gweddi'r Pharisead a froliai ei hun gerbron Duw wrth weddïo, tra mae'r Publican yn cael ei gydnabod am aros yng ngwyleidd-dra ei gyffes. Bydd y nifer sy'n mynychu'r cyrddau gweddi mewn eglwysi unigol yn llai nag yn y dyddiau a fu, ond bydd y cyrddau hyn yn digwydd yn enw'r eglwys gyfan, ac offrymir y gweddïau yn enw pob aelod. Mae'r un peth yn wir am yr elfennau addysgiadol megis dosbarthiadau beiblaidd, neu gyfarfodydd mwy cymdeithasol eu naws. Bydd pob cymwynas yn y dirgel yn rhan o gyfanswm cymwynasau'r eglwys gyfan, a hynny yn ei dro yn gyfraniad at waith yr eglwys fawr fyd-eang. Na, ni ellir cynnwys pob elfen o fwrlwm a bywyd unrhyw eglwys a phob eglwys yn yr un ffordd ag yr adroddir digwyddiadau a chyfraniadau.

Eto, mae angen i'r eglwys leol a chenedlaethol wybod beth sydd yn digwydd yn ei henw. Gobeithio fod yr eglwysi yn sylweddoli eu bod yn rhan o gorff sy'n cyflawni llawer mwy na chyfraniad yr eglwys leol, boed hynny gyda'r enwadau, Cyngor yr Eglwysi Rhyddion, Cytûn, Cyngor Ysgolion Sul Cymru, mudiadau'r Chwiorydd a llawer mwy.

Dathlwn a diolchwn am bob cyfraniad. Wrth ddarllen cyhoeddiadau fel *Cristion*, *Cenn@d*, Barnabas Aid, cyhoeddiadau'r mudiadau cenhadol, ac ati, rydym, er ein gwendid, yn aelodau o gorff Crist sy'n cyfrannu'n sylweddol i genhadaeth a llesiant y ddynoliaeth gyfan.

Yn adroddiadau'r ysgolion am gynnydd disgyblion, nodir presenoldeb a datblygiad y disgyblion fel unigolion. Diolch bod y Tad trugarog yn effro i'n gwendidau, ond prin bod hynny'n ein hesgusodi am laesu dwylo a dal 'nôl rhag ymroi i fwrlwm gweithgaredd teulu Iesu yn y byd. Pe byddai adroddiadau felly yn bod, beth fyddai gyferbyn â'n henwau: ai "gallai fod wedi ymdrechu'n well", neu "rhoddodd o'i orau"?

*Denzil I. John*



# O'r galon

**Yn hyn y mae cariad**

'Y mae'r galon yn fwy ei thwyll na dim, a thu hwnt i iachâd; pwy sy'n ei deall hi? Ond yr wyf fi, yr ARGLWYDD, yn chwilio'r galon ac yn profi cymhellion, i roi i bawb yn ôl eu ffyrdd ac yn ôl ffrwyth eu gweithredoedd.' (Jeremeia 17:9–10)

All rheswm a chariad gyd-fyw?

Byth ers adeg y Dadeni Dysg bu pwyslais ar fod yn rhesymegol, delio â ffeithiau, profi theorïau; yn wir, fod angen agwedd sgeptigol, amheus. Ymhellach, na ddylem dderbyn materion ffydd a phrofiad heb eu harchwilio'n fanwl.

Yn gyfochrog â hyn bu adfywiad a ffyniant ym myd y celfyddydau a chreadigrwydd, archwilio'r dwyfol (*numinous*) a'r haniaethol, ac ymdrech i fynegi'r trosgynnol, pethau na ellir eu gwybod. Rywsut ni sylweddolwyd bod hwn yn feddylfryd deublyg, na ellir ei gysoni'n rhesymegol, na'i bontio â chreadigrwydd.

Pen draw hyn yw fod y naratif rhesymegol wedi erlid meddylfryd 'ffydd ddireswm', Gristnogol, yn agos at ddifodiant yn y Gorllewin. Ond, yn eironig, y rhai sy'n hela olion olaf ei fynegiant yn ein bywyd cyhoeddus yw'r rhai sy'n dweud eu bod yn gwrando ar lais y galon, ac yn annog goddefgarwch, cyd-fyw a chariad at bawb.

**Rheswm a'r galon**

Ond os ydym yn tiwnio i mewn yn ofalus i leisiau ein hoes fe ganfyddwn rywbeth diddorol.

Rhof yn enghraifft i chi o'r byd ôl-ffydd rhesymegol yr Athro Brian Cox sy'n arbenigo ym maes ffiseg, ac yn adnabyddus am ei ddawn i gyflwyno gwyddoniaeth mewn modd sy'n hawdd i'w ddeall. Cyflwynodd ei gyfres *Wonders of the Solar System* ac yna *Wonders of the Universe* ar y BBC yn 2010 a 2013. Sylwch ar yr iaith mae'n ei defnyddio, yn llawn rhyfeddod, cymariaethau blodeuog, ac yn aml iawn iaith cred, yn enwedig geiriau megis, 'I believe that …'

Yna, o'r byd ôl-ffydd sy'n dilyn y galon, cawn rai'n datgan yn ddiflewyn-ar-dafod, yn ddu a gwyn, nad yw ymddygiad fel a'r fel yn dderbyniol, gan ymbalfalu am resymau absoliwt i'w brofi. Does ond rhaid agor cil llygad ar ein cyfryngau cymdeithasol i brofi hyn.

**Pam yr ymrannu?**

'Felly creodd Duw ddyn ar ei ddelw ei hun; ar ddelw Duw y creodd ef.' (Genesis 1:27)

Byth ers i Dduw ein creu, mae'r ddynolryw wedi ymdrechu i ddianc rhag y gwirionedd sylfaenol hwn, ei fod wedi ein ffurfio yn fynegiant o'i berson a'i gymeriad (fe adawaf i ddiwinyddion mwy abl na mi fynegi hyn yn llawn). Ac felly mae ein natur a'n bywyd yn llifo o'r ffynhonnell yma, ac nid yw rheswm a phrofiad y galon ar wahân ynom. Yn wir, yr unig wir reswm yw'r rheswm sy'n gwrando ar y galon, a'r unig galon iach yw un sydd hefyd yn gwrando ar reswm.

Ystyriwch am funud pam ddywedodd Iesu o fewn dwy anadl: 'Cewch wybod y gwirionedd, a bydd y gwirionedd yn eich rhyddhau … Felly os yw'r Mab yn eich rhyddhau chwi, byddwch yn rhydd mewn gwirionedd.' (Ioan 8:32,36)

Ymddengys yr ymadrodd cyntaf fel rheswm, a'r ail fel un o berthynas. Ac eto, ni allwn wybod y gwirionedd heb y berthynas. Yn wir, mae 'gwybod y gwirionedd' yn brofiad o'i adnabod yn ein byw, a'r gwirionedd yn datgloi clymau'r celwydd sy'n rhwymo ein calonnau. Ond, uwchben hyn i gyd, gwybod y gwirionedd yw'r hyn ddywed Iesu yn Ioan 17:3, 'A hyn yw bywyd tragwyddol: dy adnabod di, yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonaist ti, Iesu Grist.'



Llun: Greg Rakozy ar Unsplash

**Anhwylderau'r meddwl a'r galon**


Rwyf o'r farn nad yw'n gyd-ddigwyddiad fod ein hoes yn dioddef ton fawr o broblemau iechyd meddwl a difrawder oherwydd ein bod wedi llyncu'r celwydd andwyol yma am ymraniad rhwng y meddwl a'r galon. Ni all un fod yn rhydd ac iach tra bo'r llall yn dioddef. Y feddyginiaeth y mae'r galon ei hangen yn aml yw gwirionedd, ac mae'r rheswm angen gwyleidd-dra i wrando ar y galon, gan gofio rhybudd yr ARGLWYDD yn Jeremeia am ei thwyll.

**Calon lawn cariad**

'Yn hyn y mae cariad: nid ein bod ni'n caru Duw, ond ei fod ef wedi ein caru ni, ac wedi anfon ei Fab i fod yn aberth cymod dros ein pechodau.' (1 Ioan 4:10)

Mi geisiaf ddweud mwy am hyn y tro nesaf.

*Hywel Rhys Edwards*



# Deunyddiau newydd gan Gyhoeddiadau'r Gair

Yn ôl yr arfer, mae gan Gyhoeddiadau'r Gair nifer o gyfrolau newydd ar y gweill ar gyfer 2024, ac edrychwn ymlaen at rannu gwybodaeth am lansiadau yn ystod y flwyddyn. Fel y gwelir o'r llun, sy'n cynnwys 20 o gloriau llyfrau newydd, mae 'na ddetholiad amrywiol o lyfrau difyr ar gyfer pob oed ar y gweill eto eleni.

**Ond beth am 2025 – a thu hwnt?**

Erbyn hyn rydym yn dechrau edrych ymlaen at raglen gyhoeddi 2025. Gall gymryd blwyddyn a mwy i baratoi cyfrol yn barod i'w chyhoeddi, ac felly mae gofyn dechrau'n gynnar bob blwyddyn. Tybed a oes gan rywun o blith darllenwyr *Cenn@d* syniad am lyfr, neu efallai fod gennych ddeunydd sy'n eistedd yng nghrombil y cyfrifiadur a photensial cyfrol ynddo? Neu efallai fod gennych syniadau am adnoddau sydd eu hangen, neu gyfrol yn Saesneg y byddech yn gweld gwerth o'i chael yn y Gymraeg. Oes gennych chi amser i'w roi i baratoi adnodd newydd ar ein cyfer?

Yn ogystal â chyfrolau print, rydym hefyd yn chwilio am adnoddau i'w gosod ar ein gwefannau – er mwyn eu rhannu ag eraill.

Rydym hefyd bob amser yn chwilio am bobl all ein cynorthwyo gyda'r gwaith o gael ein cyfrolau yn barod i'w cyhoeddi – yn olygyddion, cyfieithwyr, dylunwyr, darllenwyr proflenni neu rai fyddai'n barod i werthuso cyfrol neu sgript. Os ydych ar gael i helpu mewn unrhyw ffordd, buaswn yn falch o glywed gennych, wrth i ni, gyda'n gilydd, geisio rhoi adnoddau yn nwylo pobl er mwyn rhannu'r Newyddion Da. Cysylltwch â mi – aled@ysgolsul.com – am fwy o wybodaeth.

*Aled Davies*
*Cyngor Ysgolion Sul / Cyhoeddiadau'r Gair*




LLEUWEN
EMYNAU COLL Y WERIN / LOST WELSH FOLK HYMNS
EBRILL / APRIL 2024
20 - Capel GLYNARTHEN SA44 6NX, 2pm
21 - Capel Hermon CYNWYL ELFED SA33 6SR, 2pm
Capel NANTERNIS, 7pm
22 - Capel y Priordy, CAERFYRDDIN, 7pm
23 - Capel Ebeneser LLANDEILO, 7pm
24 - Capel Elim LLANDDEINIOL SY23 5AN, 7pm
25 - Capel Goffa Ann Griffiths DOLANOG SY21 0LQ, 7pm
26 - Capel Nant y Benglog CAPEL CURIG, 7pm
27 - Capel Shiloh TREGARTH, 7:30pm
28 - Capel CWMTIRMYNACH, Bala LL23 7EB, 6pm
29 - Capel Rhos-y-Gad LLANFAIRPWLL, 7:30pm
30 - Capel y Waen, LLANELWY LL17 0DY, 1pm
Capel Mawr DINBYCH LL16 3SW, 7pm
MAI / MAY 2024
1 - Capel TUDWEIILIOG LL53 8NE, 7pm
2 - Capel Bethesda LLANGENNECH, 7pm
3 - Capel Bethania Y TYMBL, 7pm
Grafeg: Olwen Manach
BRITISH COUNCIL Wales Cymru
PYST
wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru
Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
Pays de Galles en France
Cymru yn Ffrainc
Wales in France

# Cymdeithas y Cymod yn galw ar fusnesau Cymreig i roi'r gorau i gyflenwi arfau i Luoedd Amddiffyn Israel

Mae Cymdeithas y Cymod am dynnu sylw at ddylanwad busnesau'r fasnach arfau sydd wedi'u leoli yng Nghymru ar y gwrthdaro presennol yn Gaza.

Gyda nifer y marwolaethau yn parhau i godi, mae un o fudiadau heddwch hynaf Cymru yn galw am wahardd busnesau Cymreig rhag creu a gwerthu arfau i Luoedd Amddiffyn Israel (IDF).

Mae nifer o fusnesau yng Nghymru ar hyn o bryd yn cyflenwi'r IDF ag arfau a systemau gwyliadwriaeth a ddefnyddir yn uniongyrchol yn y rhyfel yn Gaza. Mae'r busnesau hyn yn cynnwys:

- **Teledyne Technologies, Powys**
  Byddin Israel yw un o gleientiaid mwyaf Teledyne. Mae yna ffatri Teledyne Labtech ym Mhowys sy'n eiddo i'r cwmni Americanaidd Teledyne. Dyma'r cwmni sy'n allforio'r nifer mwyaf o arfau o Brydain i Israel. Mae'r ffatri'n creu arfau a systemau gwyliadwriaeth a systemau targedu.
- **Elbit Systems**
  Mae dronau wedi cael eu profi yn Aber-porth ac yn RAF Fali ar ddrôn model Hermes 900. Mae Elbit Systems yn darparu 85% o'r holl ddronau a ddefnyddir gan yr IDF.
- **JCB**
  Mae'r ffatri yn Wrecsam yn cynhyrchu offer amddiffyn ac yn cyflenwi cerbydau 'milwrol arbenigol' i'r IDF.

Mae data'r Ymgyrch yn Erbyn y Fasnach Arfau (CAAT) yn dangos bod y Deyrnas Unedig wedi cymeradwyo £560m mewn trwyddedau allforio i Israel ers 2008. Ond mae gwir werth allforion o'r Deyrnas Unedig i Israel yn gyfrinach, gyda llywodraeth Prydain hefyd yn cymeradwyo 88 o drwyddedau o "werth diderfyn" neu drwyddedau agored lle nad yw eu gwerth yn hysbys.

Ychwanega Rhun Dafydd, cadeirydd Cymdeithas y Cymod, "Mae'r golygfeydd erchyll yn Gaza yn parhau i'n hysgwyd, ond yn anffodus mae gan Gymru ran yn y gwrthdaro gwaedlyd hwn. Mae angen i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ddwyn busnesau sy'n ymwneud â'r rhyfel hwn i gyfrif a sicrhau bod llwybr ymarferol ar gyfer heddwch hirdymor yn y Dwyrain Canol."

"Er nad yw masnach yn fater datganoledig," meddai, "mae gan Lywodraeth Cymru'r gallu i roi pwysau ar y busnesau hyn. Anogwn y llywodraeth yng Nghaerdydd i ategu eu safiad dros gadoediad yn Gaza a gweithio gyda llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau eu bod yn torri pob cyswllt â'r IDF."

Mae Cymdeithas y Cymod yn credu y gall y gymuned ryngwladol wneud mwy, gan gynnwys yma yng Nghymru, i sicrhau bod proses heddwch dymor hir ar waith yn y Dwyrain Canol. Ni ddylai busnesau yng Nghymru allu gwneud elw o'r rhyfel presennol hwn yn Gaza nac yn unrhyw wrthdaro ledled y byd.

Bydd y Gymdeithas yn cysylltu â'n cynrychiolwyr etholedig i bwyso arnynt i dynnu sylw at unrhyw arfau sy'n cael eu creu yng Nghymru at ddefnydd yr IDF.

*Rhun Dafydd*

rhundafydd@gmail.com
07449326476




Llun: Eifion Wynne

Gwylnos heddwch ar sgwâr y dref, Rhuthun

S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 7 Ebrill**
Dim rhaglen

BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 7 Ebrill, am 7:30yb a 16:30yp**
Rhaglen o ganu cynulleidfaol yng nghwmni Aled Davies, Chwilog, a fydd yn dewis emynau yn ein hatgoffa o werth yr Ysgol Sul

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 7 Ebrill, am 12yp**
Oedfa dan ofal y Parch. Carys Ann, Rhydlewis

# Shevet Achim – Brodyr Ynghyd (Salm 133:1)

Ar 24 Tachwedd 2009. roedd digwyddiad annisgwyl yng nghyntedd y Senedd ym Mae Caerdydd, pan lansiwyd elusen newydd: Shevet Achim UK. Ein cadeirydd, Clive Owen, oedd y dyn tu ôl i'r fenter hon, a chan ei fod yn adnabod ambell wleidydd, dyma ni yn adeilad y Senedd i ddweud wrth bawb am 'Newyddion Da o'r Dwyrain Canol'.

I mi'n bersonol, dechreuodd y stori hon bron bedair blynedd ynghynt. pan ofynnodd ffrind i fi fynd efo fo ar wibdaith i Israel. Ar y prynhawn cyntaf (ar ôl teithio dros nos heb gwsg, bron) fe wnaethon ni benderfynu derbyn awgrym David, ein tywysydd, i ymweld â'r ysbyty yn Tel Aviv lle roedd gwaith arbennig yn digwydd. Yno gwelsom beth mae Shevet yn ei wneud. Roedd babanod a phlant o wledydd Arabaidd â nam ar eu calon yn dod i Israel i gael triniaeth gan arbenigwyr Israelaidd. O Gaza a Kurdistan y deuai'r rhan fwyaf ond roedd rhai hefyd o wledydd eraill. Mi wnaethom gyfarfod â Jonathan, arweinydd Shevet, oedd wedi dechrau'r gwaith rai blynyddoedd ynghynt. Ac wrth weld beth oedd yn digwydd, teimlais yn gryf fod hyn yn rhywbeth y dylwn ei gefnogi.

Ddwy flynedd wedyn, roeddwn yn arwain grŵp bach i Israel, ac roedd yn rhaid i mi ddangos gwaith Shevet iddynt. Ac yno dywedodd Jonathan wrthyf eu bod nhw'n ceisio sefydlu elusen Brydeinig i gefnogi'r gwaith. Fe gynigiais helpu'n syth. Ac felly mi wnes i gyfarfod â chriw bach o bobl hyfryd iawn – pedwar ymddiriedolwr ac ysgrifennydd. Roedd un yn byw yn swydd Gaerhirfryn, ond y gweddill yng Nghymru. Clive Owen oedd ein cadeirydd; roedd yn fugail ar eglwys fywiog yn ymyl Casnewydd ac wedi arwain llawer o grwpiau i ymweld ag Israel. Dyn llawn gweledigaeth a ffydd oedd yn byrlymu o syniadau. Roedd ei frwdfrydedd yn heintus. Fe wnaethon ni benderfynu gwneud rhywbeth arbennig i lansio Shevet Achim UK. Roedd Clive yn adnabod ambell Aelod Cynulliad a thrwy hynny aethom ni i'r Senedd yng Nghaerdydd i cynnal Agoriad Swyddogol i'n helusen.

Ers hynny, mae'r gwaith wedi mynd yn ei flaen wrth i ni geisio cefnogi'r hyn sydd yn digwydd yn Israel a'r gwledydd o gwmpas. Rydym wedi siarad mewn eglwysi a chapeli, wedi mynychu digwyddiadau Cristnogol, fel Christian Resources Exhibition a Word Alive. O bryd i'w gilydd rydyn ni'n cynhyrchu taflenni i'w dosbarthu i bawb â diddordeb. Mae gennym wefan Shevet Achim UK, lle mae mwy o wybodaeth, gan gynnwys cyfarwyddiadau ar sut i gyfrannu. Erbyn hyn mae pump o ymddiriedolwyr, a thri ohonom yn byw yn Nghymru.

Yn Israel mae cannoedd o blant wedi cael triniaeth ac mae'r meddygon a'r nyrsys Israelaidd yn gofalu amdanynt fel eu plant eu hunain. Mae Shevet yn trefnu cludiant i'r plant a'u gofalwyr (y mamau fel arfer). Maen nhw'n aros mewn tai y mae Shevet yn eu rhentu yn Ashdod a Jerwsalem. O'r fan honno maen nhw'n mynd i'r ysbytai, lle mae Shevet yn talu costau'r driniaeth. Mae Shevet yn dibynnu ar wirfoddolwyr o bedwar ban byd sy'n rhoi eu hamser i'r gwaith – wythnosau, misoedd, blynyddoedd weithiau. Dw i'n gwybod am dri o leiaf o'r rhain a ddaeth o Gymru.

Wrth gwrs, mae problemau a siomedigaethau, ac weithiau dydy'r driniaeth ddim yn llwyddiannus. Ond mae hyd yn oed y teuluoedd sydd wedi colli plant yn gwerthfawrogi'r cymorth ac ymroddiad staff yr ysbytai a thîm Shevet.

Ond buasai'n afreal i ysgrifennu hyn heb sôn am y rhyfel erchyll sy'n digwydd yn Gaza ar hyn o bryd. Gobeithio a gweddïaf yn daer y bydd wedi dod i ben erbyn i chi ddarllen hyn. Mae Shevet wedi bod yn gweithio i geisio cymodi Israel a Gaza; bu Jonathan a'i deulu yn byw yno am rai blynyddoedd. Ac felly mae'r hyn sy'n digwydd yno rŵan yn dristwch affwysol iddynt. Er bod Shevet yn dal i noddi plant o Kurdistan, mae'n amhosibl, wrth gwrs, gyda phlant o Gaza. Roedd rhai plant a gofalwyr yn Israel pan ymosododd Hamas ar 7 Hydref 2023. Dywedodd y llywodraeth fod yn rhaid iddynt adael Israel wedi iddynt orffen eu triniaeth, a threfnwyd iddynt i fynd i Fethlehem. Yn ddiweddar roedd angen rhagor o driniaeth ar un babi ym Methlehem. Ond, er bod y llywodraeth wedi gwrthod caniatáu i unrhyw un o Gaza ddod i mewn i Israel, yn wyrthiol, ar ôl llawer iawn o weddi, caniatawyd i'r babi a'i ofalwr (ei fodryb) groesi i Israel i gael y driniaeth hanfodol. Hyd y gwyddon ni, dyma'r unig eithriad i'r rheol hyd yn hyn.

Ond mae'r galar yn mynd yn ddyfnach na hyn. Mae'n bosibl fod bomiau Israeli wedi lladd neu anafu plant oedd wedi cael triniaeth yn Israel ychydig ynghynt. Ac mae'r rhai sy'n methu dychwelyd i Gaza wedi colli aelodau o'u teuluodd. Ar 7 Hydref lladdwyd un ddynes oedd yn arfer gyrru plant Gaza i gael triniaeth yn Israel. Mae galar pawb yn ddwfn ac yn bersonol. Y tristwch mwyaf yw gweld y newid yn agweddau rhai (nid pawb) sy'n gweithio yn yr ysbytai. Chwe mis yn ôl roeddent yn gwneud pob aberth ac ymdrech bosibl i arbed bywyd babi Arabaidd. Doedd dim byd yn ormod o drafferth. Rŵan mae rhai'n dweud na fuasent yn teimlo'n gyfforddus yn trin plant o Gaza. A dyma genedl oedd yn ymfalchïo yn yr egwyddor o gynorthwyo pawb yn ddiwahân!

Mae'n hawdd deall yr agweddau hyn. Mae Hamas yn hollol agored am eu nod i ddifetha Gwladwriaeth Israel. Pan ydych chi'n cyfuno hyn â llofruddiaeth mil o Iddewon mewn gwaed oer ar 7 Hydref, mae rhywun yn sylweddoli bod Israeliaid yn ystyried eu bod yn ymladd nid yn unig dros fodolaeth eu gwlad ond dros eu bywydau eu hunain. Ond ar y llaw arall, mae pobl Shevet yn drist iawn o weld sut mae'r teimladau hyn wedi newid meddylfryd poblogaeth a milwyr Israel. Mae pethau'n cael eu dweud a'u gwneud a fuasai'n anathema yn Israel cyn 7 Hydref. Achos wylo go-iawn.

Sut ydym yn ymateb fel Cristogion? Gweddi wrth gwrs, ond yn anad dim gwrthod casáu. Medrwn gondemnio'r ideoleg ddieflig a ysbrydolodd gyflafan 7 Hydref, ond gwae ni os ydym yn casáu pobl Gaza yn gyffredinol. Medrwn feio rhai agweddau a gweithredoedd gan lywodraeth a milwyr Israel, ond ar bob cyfrif rhaid gwrthod casáu Israeliaid (ac yn fwy pendant fyth Iddewon fel y cyfryw).

Ym Mhrydain rydym wedi gweld cynnydd mewn digwyddiadau gwrth-Semitaidd ac Islamoffobig, y ddau beth yn ffrwyth gwneud diafol o'r 'gelyn'. Rhaid cofio o hyd nad 'yw ein hymdrech ni yn erbyn cig a gwaed'. Bu farw Crist ac atgyfododd i ddod â maddeuant a bywyd newydd i ni i gyd – yn Gaza, yn Israel, a hyd yn oed yng Nghymru fach. Dydyn ni ddim yn gwybod a fydd yn bosibl ailsefydlu'r gwaith yn Gaza yn y dyfodol. Ni fedrwn ond gweddïo y bydd gras Duw yn gwella'r briwiau ac y bydd gennym rywsut ran i'w chwarae yn ei waith. Wnewch chi ymuno â ni yn y weddi hon? Diolch.

*Peter James*
*Shevet Achim UK*
*PO Box 979*
*Taunton*
*TA1 9PS*
*info@shevet.org.uk*
*07510 658379*

# Beth yw Gweddi? – rhan 1

Mae gweddïo yn rhywbeth eithriadol o bwysig yn y ffydd Gristnogol. Hanfodol. Mae pob Cristion i weddïo yn gyson ond oherwydd nad oes gennym batrymau gweddi haearnaidd y mae perygl i ni fynd yn gwbl lac ac esgeulus mewn gweddi. Mae'r Mwslemiaid yn gweddïo yn ddeddfol 5 gwaith y dydd ar amserau penodol. Dyma'r enwau ar eu gweddïau dyddiol: Fajr (gwawr), Dhuhr (hanner dydd), Asr (pnawn), Maghrib (machlud), Isha (nos). Ond nid oes gennym ni fel Cristnogion amserau penodedig i weddïo. Felly mae'n bwysig ein bod fel Cristnogion yn meithrin disgyblaeth a phatrymau



### Beth yw gweddi?

Yn syml gweddi yw siarad gyda Duw. Cynnal sgwrs gydag ef. Mae Duw wedi ein creu i fyw mewn perthynas ag ef. Yn Genesis cawn y darlun fod Duw yn creu popeth ac yn rhoi pobl i fod yn gyfrifol dros y cwbl mewn cydweithrediad ag ef. Mae Adda ac Efa gyda Duw yn edrych ar ôl y cread ac yn amlwg mae perthynas gariadus rhyngddynt. Dyma yw ein cyflwr naturiol. Y crëwr a'r creaduriaid yn cyfathrebu mewn perthynas o gariad a diolchgarwch. Beth oedd testun y sgwrs? Ni allwn ond dychmygu. Ond yn y berthynas gyda Duw mae cyflawnder a hapusrwydd. Fel hyn mae pethau i fod. Yma, gyda Duw mae paradwys, tangnefedd, dedwyddwch a chyflawnder. Ond yna mae'r chwalfa yn dod trwy anufudd-dod. Dywed pobl nad ydynt am gadw'n ffyddlon i'w crëwr ac nid ydynt yn credu fod y berthynas gyda Duw yn ddigon i'w bodloni. A'r hyn sy'n digwydd yw bod y berthynas rhwng pobl a Duw a'r cyfeillgarwch yn cael ei chwalu a'r bendithion yn cael eu llygru. Aethant i gredu bod man gwyn man draw, heb Dduw. Onid dyna yw ein hanes bob amser? Yr hyn mae Duw yn ei wneud yn Iesu yw adfer y berthynas. Dod a ni yn ôl trwy'r hyn wnaeth Iesu i berthynas ag ef. Mae Cristnogaeth yn eithriadol o syml ac mae gweddi'n arwydd fod ein perthynas gyda Duw wedi ei hadfer trwy Iesu.

### Effaith gweddi

Dyma rai pwyntiau am weddi:

1. Wrth weddïo rydym yn cydnabod bodolaeth a phresenoldeb Duw. Nid ydym yn gweddïo ar ddim nad ydym yn credu sy'n bodoli nac yn gwrando arnom. Felly, mae gweddi o bob math yn fynegiant o'n haddoliad o Dduw. Mae Ef yn haeddu ein canmoliaeth, ein hamser a'n cariad.

2. Wrth weddïo rydym hefyd yn ildio ein hunain iddo Ef a'i gydnabod yn Arglwydd. Deuwn yn ymwybodol o fawredd a phresenoldeb yr Arglwydd a rhoddwn ein bywydau yn ei ddwylo Ef. Cydnabyddwn mai ei eiddo Ef ydym. Ti sydd piau ni, dy eiddo di ydym. e.e., Salm 100: 'Cyffeswch mai'r ARGLWYDD sydd Dduw; fe ydy'r un a'n gwnaeth ni, a ni ydy ei bobl e – y defaid mae'n gofalu amdanyn nhw'.

Ac yn hyn mae teimlad o ddiogelwch a sicrwydd. Duw bia fi, nid y byd, nid y tywyllwch, nid yr un drwg, ond Duw, mae o yn fy ngharu i, mae wedi fy mhrynu yn Iesu ac mae popeth yn iawn beth bynnag sydd yn digwydd.

3. Wrth weddïo rydym yn cael ein moldio i ewyllys Duw. Yn aml deuwn â'n rhestr weddi gerbron Duw. Gwna hyn, llall ac arall, Arglwydd, ac fe fydd fy mywyd i'n well. Ond nid pwrpas gweddi yw ein bod ni yn rhoi cyngor i'r Duw perffaith a hollalluog beth ddylai ei wneud, ond yn hytrach ein bod ni yn caniatáu i Dduw ein newid fel ein bod yn plygu i'w ewyllys. Mae gan Elfed frawddeg syml ond arwyddocaol iawn yn ei emyn ar weddi (*Caneuon Ffydd*, 717). Fe ddywed fod treulio munud yng nghwmni Duw yn newid gwerth y byd.

> I dawel lwybrau gweddi,
> O Arglwydd, arwain fi,
> rhag imi gael fy nhwyllo
> gan ddim daearol fri:
> mae munud yn dy gwmni
> yn newid gwerth y byd
> yn agos iawn i'th feddwl
> O cadw fi o hyd.

Mae gweddi yn ein newid ni ac yn newid ein hagwedd at y gymdeithas a'r bobl sydd o'n cwmpas gan ein bod yn treulio amser ym mhresenoldeb y cariad mwyaf. Ac yng ngwres y cariad fe gawn ein llenwi gan y cariad.

Her: bob dydd rhowch 5–10 munud i weddïo ar yr Arglwydd. Cymerwch salm, adnod neu emyn i feddwl amdano er mwyn rhoi testun gweddi i chi. Os na allwch feddwl am ragor i'w ddweud, eisteddwch yn dawel gan fod yn ymwybodol o bresenoldeb Duw.

(gyda diolch i'r *Tyst*)

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru